ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	23 Medi, 2015
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Technegol (Trwyddedu) trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Adolygiad Arfaethedig o'r Datganiad Polisi Trwyddedu

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu am y gofyniad i gychwyn y broses ymgynghori sy'n gysylltiedig ag Adolygiad o Ddatganiad y Cyngor o Bolisi Trwyddedu.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Un o gyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol, wrth weithredu yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Awdurdod Trwyddedu, ac yn unol ag Adran 5 o'r Ddeddf Trwyddedu, yw pennu a chyhoeddi Datganiad o Bolisi Trwyddedu.

2.2 Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref o dan Adran 182 o'r Ddeddf Trwyddedu, mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgynghori ar a pharatoi Datganiad o Bolisi Trwyddedu bob 5 mlynedd o leiaf.

3. PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Adran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003.

4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Daeth y Datganiad cyntaf o Bolisi Trwyddedu a fabwysiadwyd gan y Cyngor i rym ym mis Ionawr 2005.

4.2 Mae'r Datganiad o Bolisi Trwyddedu yn sefydlu fframwaith lleol ar gyfer gwneud penderfyniadau wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd neu amrywiadau perthnasol i delerau ac amodau presennol. Mae'r Polisi yn

bwysig iawn am ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor a'r Is-bwyllgor Trwyddedu roi sylw dyledus iddo, ynghyd â'r Canllawiau a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref, wrth bennu cais a wrthwynebir.

4.3 Mae'n amser i Adolygu'r Polisi presennol ac mae'n angenrheidiol i'r Cyngor ymgymryd â phroses ymgynghori. Yn unol â'r amserlenni statudol, rhaid i'r Polisi diwygiedig fod ar waith er mwyn iddo ddod i rym ym mis Ionawr 2016.

5 YSTYRIAETH

5.1 Bydd yr Aelodau'n cofio bod y Polisi presennol wedi'i baratoi ar y cyd â chydweithwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; gan fod y trefniant hwnnw wedi dod i ben, bu ymateb i Bolisi "annibynnol". Fodd bynnag, mae swyddogion wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â swyddogion o awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru mewn prosiect ar y cyd i baratoi ar gyfer yr adolygiad hwn.

5.2 Bydd Aelodau'n sylwi bod llawer o'r cynnwys yn aros yr un fath, ond mae cyflwyno Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014, ynghyd â Ddeddf Dadreoleiddio 2015, wedi golygu bod angen rhai newidiadau.

5.3 Tra bo rhaid i Bolisi Datganiad o Drwyddedu fod yn unigol i bob awdurdod, ystyrir y byddai o gymorth i ymgeiswyr ac awdurdodau cyfrifol fel ei gilydd pe bai'r awdurdodau cyfagos hynny yn cael eu llunio mewn modd tebyg. Am y rheswm hwn, bydd Aelodau hefyd yn nodi, ynghyd â'r newidiadau a grybwyllwyd uchod, bod trefn y cynnwys wedi ei newid i ryw raddau.

5.4 Gellir archwilio'r polisi drafft yn Atodiad A i'r adroddiad hwn, ynghyd â thabl esboniadol (Atodiad B) yn manylu ar y newidiadau mawr i'r Polisi cyfredol.

5.5 Efallai y bydd y ddogfen ei hun yn dal i gael ei newid wrth i'r prosiect ar y cyd fynd yn ei flaen, ond mae swyddogion yn disgwyl i'r drafft terfynol fod yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus erbyn mis Hydref - Tachwedd 2015.

6 YMGYNGHORI

6.1 Er mwyn cydymffurfio â gofynion statudol, ymgynghorir â'r asiantaethau

canlynol:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Gwasanaethau Cynllunio
- Safonau Masnach
- Iechyd yr Amgylchedd
- Gwasanaethau Plant
- Iechyd a Diogelwch
- Cynrychiolwyr y fasnach drwyddedig leol
- Cynrychiolwyr busnesau a thrigolion lleol
- Pob Cynghorydd Sir
- Cynghorwyr Tref a Chymuned
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

6.2

6.3

Bydd hysbysiad cyhoeddus hefyd yn cael ei gyhoeddi mewn papur newydd priodol.

Cynigir bod yr amserlenni canlynol yn cael eu cymhwyso i ganiatáu ar gyfer rhoi ystyriaeth briodol i'r datganiad o bolisi drafft:

- Cyfnod arfaethedig ar gyfer ymgynghori - mis Hydref/Tachwedd 2015
- Mabwysiadu gan y Cyngor – mis Rhagfyr/Ionawr 2016
- Cyhoeddi’r Polisi – Dechrau 2016

7

ARGYMHELLIAD

Bod yr Aelodau'n ystyried y Datganiad drafft amgaeedig o Bolisi Trwyddedu ac yn awdurdodi swyddogion i gychwyn ymgynghori.